GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales	**Rhif Cyfeirnod:** ICC 30 / TP01 **Rhif y Fersiwn: 2** **Dyddiad yr adolygiad Nesaf:** 16.02.26

GWEITHDREFN AR GYFER RHYBUDDION, HYSBYSIADAU DIOGELWCH A CHANLLAWIAU ERAILL

Cyflwyniad a Nodau

Mae'r weithdrefn hon yn tanategu'r Polisi Rhybuddion, Hysbysiadau Diogelwch a Chanllawiau Eraill.

Nod y ddogfen hon yw sicrhau strwythur a dull systematig o ledaenu a gweithredu rhybuddion drwy Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac adrodd ar gamau a gymerwyd neu sydd heb eu cymryd yn erbyn y cyfryw rybuddion.

Dylid nodi bod y term Rhybuddion yn cael ei ddefnyddio drwy gydol y ddogfen hon i gyfeirio at rybuddion, hysbysiadau diogelwch a chanllawiau eraill.

Polisïau Cysylltiedig, Gweithdrefnau a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig

Mae'r holl bolisïau a'r gweithdrefnau corfforaethol ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru

Rhybuddion, Hysbysiadau Diogelwch a Chanllawiau eraill ar Bolisiau

Cwmpas

Mae'r drefn hon yn berthnasol i'r holl staff sy'n gweithio yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Er mwyn bod yn gryno, defnyddir y term staff drwy gydol y ddogfen hon i gyfeirio at staff, contractwyr, staff asiantaeth, gwirfoddolwyr, a secondeion.

Asesu Cydraddoldeb a'r Effaith ar Iechyd	Mae'r Weithdrefn hon yn cael ei chwmpasu gan Asesu Cydraddoldeb a'r Effaith ar Iechyd (EHIA) ar gyfer y Rhybuddion, Hysbysiadau Diogelwch a Chanllawiau eraill ar Bolisiau , sydd ar gael ar wefan Polisïau a Gweithdrefnau Corfforaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC)
Cymeradwywyd gan	Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella
Dyddiad cymeradwyo	16/02/23
Dyddiad Adolygu	16/02/26
Dyddiad Cyhoeddi:	23/02/23

Cyfarwyddwr Gweithredol/Cyfarwyddwr Atebol	Rhiannon Beaumont-Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Arweinydd **Awdur**	Angela Cook, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd Frankie Thomas, Pennaeth Gweithio i Wella

Ymwadiad

Os yw dyddiad adolygu'r ddogfen hon wedi mynd heibio, dylid sicrhau mai'r fersiwn rydych yn ei defnyddio yw'r fersiwn ddiweddaraf naill ai drwy gysylltu ag awdur y ddogfen neu'r adran Llywodraethu Corfforaethol.

Crynodeb o adolygiadau/gwelliannau

Rhif y Fersiwn	Dyddiad yr Adolygiad	Dyddiad Cymeradwyo	Dyddiad cyhoeddi	Crynodeb o'r Gwelliannau
1.0		15/01/2019	06/02/2019	Dogfen newydd
2.0	15/09/2022	16/02/23	23/02/26	Adnewyddu a newid personél mewn rolau allweddol sy'n ymwneud â'r polisi a'r weithdrefn hon.

Cynnwys

1 Cyflwyniad.....4

2 Diben a Chwmpas y Weithdrefn hon.....4

3 Rolau a Chyfrifoldebau..... 5

4 Talfyriadau.....7

5 Mathau o Rybudd a Ffynhonnell.....8

6 Graddau a Therfynau Amser Rhybuddion.....9

7 Gweithdrefnau Rhybuddion.....9

8 Templed Rhybuddion..... 11

9 Rhybuddion a dderbyniwyd y Tu Allan i oriau.....11

10 Monitro cydymffurfiaeth ac effeithiolrwydd y weithdrefn hon..... 11

11 Cyfeiriadau..... 12

12 Atodiadau..... 12

1. Cyflwyniad

Fel rhan o'r gwaith o reoli iechyd, diogelwch a lles defnyddwyr a staff y gwasanaeth, mae'n ofynnol i Iechyd Cyhoeddus Cymru reoli risgiau a chymryd camau er mwyn
atal niwed. Mae hyn yn cynnwys lleihau'r risg o ddigwyddiadau, gwella arferion gorau mewn meysydd clinigol a sicrhau diogelwch defnyddwyr gwasanaethau, staff a thrydydd partïon.

Defnyddir system a reolir yn ganolog i gyflawni'r swyddogaeth hon a nod y weithdrefn hon yw rhoi arweiniad er mwyn sicrhau bod yna system reoli effeithiol y gellir ei harchwilio ar gyfer dosbarthu, monitro a chadw cofnodion pob rhybudd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae rhybuddion yn cael eu derbyn i'r sefydliad drwy sawl llwybr fel a ganlyn:

- Dosberthir rhai rhybuddion drwy Fodiwl Atebion Diogelwch Cleifion (PSS) ar gwmwl Datix sef system raeadru ar y we a weithredir gan yr Uned Gyflawni yn Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys Rhybuddion Diogelwch Cleifion a Hysbysiadau Diogelwch Cleifion (a elwir ar y cyd yn Atebion Diogelwch Cleifion)

- Derbynnir rhybuddion eraill (E.e. Llythyrau'r Prif Swyddog Meddygol, rhybuddion dyfeisiau meddygol, rhybuddion meddyginiaethau ac iechyd a diogelwch) yn cael eu derbyn drwy ddosbarthiad cenedlaethol sy'n cael eu derbyn gan y Tîm Ansawdd a Nyrsio yn y Gyfarwyddiaeth Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (QNAHPS)

  Mae'r weithdrefn yn amlinellu'r broses o'r pwynt y derbynnir rhybudd yn ICC drwy'r modiwl PSS, drwy'r System Cwmwl Datix neu drwy ddosbarthiad cenedlaethol

  Dylid nodi nad yw Cylchlythyrau Iechyd Cymru yn cael eu rheoli o dan y weithdrefn hon. Mae'r rhain yn cael eu trin gan Ysgrifennydd y Bwrdd ac Uned Fusnes y Bwrdd o dan broses ar wahân. Cyfeiriwch at Ysgrifennydd y Bwrdd neu PHW.CorporateGovernance@wales.nhs.uk am ragor o wybodaeth.

2. Diben a Chwmpas y Weithdrefn hon

Diben y weithdrefn hon yw gosod proses Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer rhaeadru a gweithredu ac adrodd cynnydd mewn perthynas â rhybuddion a

nodwyd, gan sicrhau gwelliant parhaus yn ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn erbyn canllawiau sefydliadol, polisïau a gofynion Statudol. Dylid nodi bod y term Rhybuddion yn cael ei ddefnyddio drwy gydol y ddogfen hon i gyfeirio at rybuddion, hysbysiadau diogelwch a chanllawiau eraill.

Mae'r weithdrefn hon yn ddogfen sefydliad cyfan ac mae'r un mor berthnasol i bob aelod o staff, naill ai'n barhaol neu dros dro ac i'r rhai sy'n gweithio yn ICC, neu i ICC, o dan wasanaethau contract.

3. Rolau a Chyfrifoldebau

Prif Weithredwr
Cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau trefniadau effeithiol ar gyfer lledaenu, gweithredu ac adolygu Rhybuddion

Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella
- Yn gyfrifol am dderbyn sicrwydd a monitro effeithiolrwydd y gwaith o roi'r weithdrefn Rhybuddion ar waith a chadw at ganllawiau cenedlaethol.
- Bydd y Pwyllgor yn rhoi sicrwydd sefydliadol bod yr holl gamau lle bo hynny'n briodol wedi'u rhoi ar waith, ar y trywydd iawn neu wedi'u cwblhau o fewn amserlenni

Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Arweinwyr y Gyfarwyddiaeth
Yn gyfrifol am y canlynol:
- Sicrhau bod pob aelod staff y Gyfarwyddiaeth a staff Rhanbarthol yn ymwybodol o'r weithdrefn hon ac yn monitro cydymffurfiaeth â'r gwaith o reoli Rhybuddion ac adrodd arnynt
- Sicrhau bod unrhyw gamau sy'n cael eu rhoi ar waith yn cael eu monitro nes y cydymffurfir â'r Rhybudd
- Drwy strwythurau llywodraethu presennol ym mhob Cyfarwyddiaeth, sicrhau bod arweinwyr dynodedig a phrosesau lleol ar waith i ledaenu a gweithredu Rhybuddion

Hwylusydd Corfforaethol Rhybuddion
Mae'r Hwylusydd Corfforaethol Rhybuddion yn gyfrifol am y canlynol:
- Derbyn rhybuddion ar ran Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Cynnal cofnod canolog o rybuddion.
- Dosbarthu rhybuddion i Arweinydd Rhybuddion y Gyfarwyddiaeth Ansawdd Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (QNAHPS) ac aelodau staff allweddol eraill fel y bo'n briodol.
- Rhybuddio'r Gyfarwyddiaeth/arweinwyr Rhanbarthol/ gyda'r hysbysiad Rhybudd a'r camau gweithredu ar ôl cael cyfarwyddyd i wneud hynny gan arweinydd Rhybuddion Ansawdd, Nyrsio a Diben a Chwmpas? (QNPAS) lle y bo angen.

- Cynnal cofnodion sy'n cadarnhau camau gweithredu.
- Darparu crynodeb o rybuddion, sydd wedi'u hagor a'u cau, i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella.
- Diweddaru statws rhybuddion yn system Rhybuddion Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Darparu cymorth ac arweiniad i staff ynghylch rhybuddion.
- Hysbysu Uned Gyflawni Llywodraeth Cymru am newidiadau i hwyluswyr corfforaethol Rhybuddion
- Darparu hyfforddiant ynghylch prosesau rhybudd ar gyfer aelodau staff perthnasol

Arweinydd Rhybuddion y Gyfarwyddiaeth Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Mae gan yr arweinydd Rhybuddion QNAHPS gyfrifoldeb i:

- adolygu'r holl Rybuddion cychwynnol ar ôl eu derbyn gan hwylusydd corfforaethol Rhybuddion
- Derbyn ac ymateb i geisiadau am ragor o wybodaeth am y Rhybudd
- Cytuno pa Gyfarwyddiaeth ac arweinwyr yn y sefydliad ddylai dderbyn y Rhybudd gan gysylltu ag uwch staff priodol yn ôl yr angen
- Cytuno â'r hwylusydd Corfforaethol Rhybuddion ar gamau gweithredu a'i gefnogi i gyflawni ei gyfrifoldebau

Arweinwyr Iechyd a Diogelwch

Mae'r arweinydd Iechyd a Diogelwch yn gyfrifol am y canlynol:

- Sgrinio'r holl Rybuddion Iechyd a Diogelwch gan gynnwys Rhybuddion Perygl Foltedd Uchel a chadarnhau a yw'n ofynnol lledaenu rhybuddion i Arweinydd enwebedig y Gyfarwyddiaeth
- Rhoi gwybod i'r Hwylusydd Corfforaethol a oes angen gweithredu ai peidio
- Llenwi a dychwelyd y ffurflen ymateb i Rybuddion
- Lle mae angen gweithredu, monitro cynnydd a chadarnhau gyda Hwylusydd Corfforaethol pan fydd camau'n cael eu cwblhau
- Hysbysu'r Hwylusydd Corfforaethol o unrhyw newidiadau sydd eu hangen i Arweinwyr Iechyd a Diogelwch (er enghraifft gwyliau blynyddol ac ati)

Rheolwyr/Rheolwyr Rhanbarthol

Yn gyfrifol am y canlynol:

- Ymateb i rybuddion yn amserol.

- Cynnal system gadarn ar gyfer dosbarthu rhybuddion i dimau priodol.
- Cynnal cofnodion sy'n cadarnhau dosbarthiad.
- Cynnal cofnodion o gamau a gymerwyd mewn timau.
- Darparu cadarnhad o gamau a gymerwyd i hwylusydd corfforaethol Rhybuddion
- Darparu cadarnhad o gamau a gwblhawyd ar y system i hwylusydd corfforaethol Rhybuddion

Rheolwyr Gwasanaethau / Arweinwyr Gwasanaethau

Yn gyfrifol am y canlynol:

- Ymateb i rybuddion yn amserol.
- Sicrhau bod camau'n cael eu cymryd o fewn maes cyfrifoldeb fel y gellir cydymffurfio â'r rhybudd.
- Sicrhau bod ganddynt systemau ar gyfer dirprwyo neu gyflenwi pan fyddant ar wyliau.
- Darparu tystiolaeth wedi'i dogfennu o gamau a gymerwyd, os gofynnir amdanynt, i uwch reolwyr.
- Sicrhau bod gwybodaeth yn y rhybuddion yn cael ei lledaenu i bersonél perthnasol yn eu hadran gan ddefnyddio dulliau cyfathrebu priodol.
- Darparu ymateb amserol i bob rhybudd a dderbyniwyd yn yr adran.
- Cynnal "llyfrgell" o rybuddion, fel y gall staff gyfeirio ati'n hawdd.
- Cefnogi unrhyw broses adolygu a wneir i asesu cydymffurfiaeth â'r broses Rhybuddion

Pob aelod staff a chontractwr (gan gynnwys staff Locwm, Staff Dros Dro a Staff Banc)

Yn gyfrifol am y canlynol:

- Bod yn gyfarwydd â'r weithdrefn hon a chymryd cyfrifoldeb dros gadw at y camau a'r canllawiau Rhybudd

4. Talfyriadau

Talfyriad	**Diffiniad**
ARF	Ffurflen Ymateb i Rybuddion
ASSH	Taenlen Crynodeb o Rybuddion
CF	Hwylusydd Corfforaethol
CL	Arweinydd Corfforaethol
CMO	Prif Swyddog Meddygol
DL	Arweinydd Rhanbarthol
DU	Uned Gyflawni (Llywodraeth Cymru)

HSL	Arweinydd Iechyd a Diogelwch
PSS	Atebion Diogelwch Cleifion- Rhybuddion Diogelwch Cleifion a Hysbysiadau Diogelwch Cleifion (a elwir ar y cyd yn Atebion Diogelwch Cleifion)
QNAHPS	Y Gyfarwyddiaeth Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn ICC

5. Mathau o Rybudd a Ffynonellau

Mae'r holl Rybuddion a dderbyniwyd gan ICC naill ai drwy'r modiwl PSS ar Gwmwl Datix neu drwy'r sianeli dosbarthu cenedlaethol a anfonwyd at (phw.DatixChanges@wales.nhs.uk) gan amrywiol asiantaethau rheoleiddio, sy'n cael ei fonitro ar lefel sefydliadol gan y tîm Ansawdd a Nyrsio.

Y mathau o rybuddion y bydd PHW yn eu derbyn a natur y rhybuddion hynny yw:

Cyfeirnod	Tarddiad	Math
MHRA	Rhybuddion Dyfeisiau Meddygol MHRA	Offer meddygol, sylweddau meddygol, mewnblaniadau meddygol.
DHEFD	Adran Iechyd, Ystadau a Chyfleusterau	offer anfeddygol (ond gall orgyffwrdd ag offer meddygol, e.e. teclynnau codi/cadeiriau olwyn, ac ati.) sylweddau
HSE	Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch	Offer gwaith Meddygol ac Anfeddygol. Gall fod yn gysylltiedig ag anaf neu afiechyd
Prif Swyddog Meddygol	Prif Swyddog Meddygol	Neges feddygol frys gan y Prif Swyddog Meddygol

6. Graddau a Therfynau Amser Rhybuddion

Mae rhybuddion fel arfer yn perthyn i bedwar categori fel a ganlyn:

Graddau Rhybudd	Disgrifiad
Gweithredu ar Unwaith	Defnyddir mewn achosion lle mae risg o farwolaeth neu anaf difrifol a lle mae disgwyl i'r derbynnydd weithredu ar unwaith ar y cyngor.
Camau Gweithredu	Defnyddir lle mae disgwyl i'r derbynnydd weithredu ar y cyngor, lle mae angen ailadrodd rhybuddion ar broblemau hirsefydlog, neu gefnogi neu gymryd camau dilynol ar addasiadau i feysydd y gwneuthurwyr.
Yr Wybodaeth Ddiweddaraf	Defnyddir i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r derbynnydd am ddigwyddiadau neu gyfresi o ddigwyddiadau a adroddwyd yn flaenorol, o bosibl mewn grwpiau am faterion amserol neu'n ymwneud â dyfais, a lle bernir bod rhagor o wybodaeth ddiogelwch ddilynol yn fuddiol
Cais am Wybodaeth	Defnyddir i dynnu sylw defnyddwyr at faterion penodol a allai ddod yn broblem a lle gofynnir am adborth.

7. Gweithdrefnau Rhybuddion

Fel yr amlinellir yn Atodiad A, bydd y Tîm Ansawdd Corfforaethol a Nyrsio yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn:

Cam 1: Cydnabod derbyn rhybudd

Bydd yr Hwylusydd Corfforaethol Rhybuddion yn cydnabod y rhybudd o fewn yr amserlen ragnodedig yn ôl y gofyn.

Cam 2: Asesu Perthnasedd i Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mewn cydweithrediad â'r Arweinydd Rhybuddion ar gyfer QNAHPS/ICC Asesu PSS a Rhybuddion eraill am eu perthnasedd i'r sefydliad

Rhybuddion Iechyd a Diogelwch – Mae'r holl rybuddion hyn yn cael eu hadolygu i ddechrau gan Arweinydd Iechyd a Diogelwch yn ICC

Cam 3: Camau Gweithredu ar y Gweill

Bydd yr Hwylusydd Corfforaethol Rhybuddion yn llenwi'r templed a nodir yn Atodiad B ac yn ei lwytho i'r Daenlen Crynodeb o Rybuddion.

Dylid anfon y ddolen Rhybudd ymlaen at naill ai arweinwyr/cysylltiadau'r gyfarwyddiaeth fel y bo'n briodol i'r gofynion rhybudd, i'w gweithredu.

Bydd Arweinwyr/Prif gysylltiadau'r Gyfarwyddiaeth yn asesu perthnasedd y rhybudd i'r gwasanaethau yn seiliedig ar ei gategori a'u harbenigedd nhw

Bydd Arweinwyr/Prif gysylltiadau'r Gyfarwyddiaeth yn cadarnhau a yw'r rhybudd yn berthnasol i'r sefydliad gyda'r hwylusydd corfforaethol

Yna bydd y derbynwyr yn ymateb i'r Rhybudd drwy nodi yn y metadata Rhybudd ar Sharepoint bod y Rhybudd wedi'i weithredu o fewn y terfynau amser ar gyfer y rhybudd.

Cam 4: Camau Gweithredu wedi'u Cwblhau

Bydd yr Hwylusydd Corfforaethol Rhybuddion yn sicrhau bod camau gweithredu ar gyfer y gofynion rhybudd yn cael eu cwblhau o fewn terfynau amser y rhybudd ac yn monitro'r ymatebion ar y Daenlen Crynodeb o Rybuddion.

Bydd gwybodaeth a gasglwyd yn cael ei huwchlwytho ar gofrestr a elwir yn Daenlen Crynodeb o Rybuddion (ASSH) o'r holl rybuddion a chamau gweithredu cysylltiedig a gymerwyd fel tystiolaeth

Cam 5 Newidiadau a Sicrwydd Sefydliadol

Os yw'n ofynnol i'r camau gweithredu a amlinellir yn Rhybuddion Diogelwch Cleifion gael trosolwg a bod angen newid neu welliant i bolisi neu weithdrefnau/ganllawiau ICC, mae'r rhain yn cael eu huwchgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Nyrsio i'w trafod a'u gweithredu.

Bydd Hwylusydd Corfforaethol Rhybuddion yn darparu adroddiadau chwarterol er mwyn cael sicrwydd i'r Tîm Gweithredol Busnes yn ôl y galw ac i Bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella Iechyd Cyhoeddus Cymru ar berfformiad y system

Bydd Hwylusydd Corfforaethol Rhybuddion yn archwilio'r system er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac yn darparu dadansoddiad o ddata yn ôl y galw, gan gynnwys:

a) Prydlondeb cydnabod, cyflwyno a gweithredu'r rhybuddion.

b) Nifer y Rhybuddion sydd wedi ennyn ymateb ffurfiol.

c) Nifer o gamau gweithredu sydd wedi'u cwblhau.

Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei lunio i lywio'r cynllun Ansawdd ac Archwilio Clinigol Blynyddol

8. Templed Rhybuddion

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi datblygu templed Ffurflen Ymateb i Rybuddion (ARF) (Atodiad B) sy'n cofnodi manylion y Rhybudd ac sy'n cael ei ledaenu drwy ddolen sharepoint yn ôl cyfarwyddyd yr Arweinydd Corfforaethol.

Rhaid i arweinydd enwebedig y Gyfarwyddiaeth/Rhanbarthol gofnodi'r camau a gymerwyd ar y ffurflen drwy gwblhau'r golofn Metadata ar y Daenlen Crynodeb o Rybuddion a gedwir ar sharepoint.

Gall y swyddogion canlynol neu eu dirprwyon enwebedig gwblhau'r ffurflen ymateb i Rybuddion:

- Hwylusydd Corfforaethol (CF)
- Arweinydd Corfforaethol (CL)
- Arweinydd Iechyd a Diogelwch (HSL)
- Arweinydd Rhanbarthol (DL)

Os oes unrhyw oedi gyda'r amserlenni gofynnol, rhaid i'r CF gael gwybod ar unwaith gan yr Arweinydd enwebedig.

9. Rhybuddion a dderbyniwyd y Tu Allan i Oriau

Nodir bod y broses ar gyfer monitro'r holl rybuddion dim ond yn weithredol o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod yr wythnos waith. Nid yw'r broses yn weithredol ar benwythnosau na gwyliau banc. Bydd unrhyw rybuddion sy'n cael eu derbyn y tu allan i oriau craidd yr wythnos waith yn cael eu blaenoriaethu i'w gweithredu ar y diwrnod gwaith cyntaf nesaf.

10. Monitro cydymffurfiaeth ac effeithiolrwydd y weithdrefn hon

Bydd yr Is-adran Ansawdd a Nyrsio yn QNAHPS yn monitro effeithiolrwydd y polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer rhybuddion a bydd yn rhoi sicrwydd a/neu'n adrodd ar unrhyw welliannau angenrheidiol y mae angen eu gwneud i'r Weithrediaeth Fusnes yn ôl yr angen (neu unrhyw grŵp dirprwyedig y cytunwyd arno) a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella.

Bydd adroddiad chwarterol yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella ar berfformiad y system.

Yn ogystal, cynhelir archwiliad pob dwy flynedd o'r system er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei ddarparu ar gyfer yr Archwiliad Ansawdd a Chlinigol Blynyddol.

11. Cyfeiriadau

Atebion Diogelwch Cleifion: Rhybuddion a Hysbysiadau - Uned Gyflawni (gig.cymru)

12. Atodiadau

Proses ar gyfer ymdrin â Rhybuddion	Atodiad A
Ffurflen Ymateb i Rybuddion	Atodiad B
Proses ar gyfer ymdrin â Rhybuddion Iechyd a Diogelwch	Atodiad C
Ffurflen Prif Gysylltiadau	Atodiad D